Y mae'n rhaid i ni gyflawni gweithredoedd yr hwn a'n hanfonodd i tra mae hi'n ddydd. Y mae'r nos yn dod pan na all neb weithio' (Ioan 9:4).

Daw'r adnod hon o hanes iachau y dyn dall yn Efengyl Ioan (Ioan 9:1-34), ac y mae'r neges yn syml – mae'n rhaid dal ar y cyfle.

Efallai bod rhai ohonoch yn cofio hysbyseb blaid Weriniaethol yn America ar drothwy etholiad arlywyddol 1984 pan oedd yr Arlywydd Regan wedi bod yn y Tŷ Gwyn ers pedair blynedd. Cynhyrchwyd hysbyseb deledu gan y Gweriniaethwyr yn dangos pobl America yn mynd i'w gwaith yn y bore, yn hapus a didaro, a'r wlad i bob golwg yn ffynnu'n economaidd, ac fe fathwyd y slogan 'Mae'n fore yn America'.

Yn ei esboniad ar efengyl Ioan mae'r diweddar Isaac Jones, Abergele wrth ymdrin â hanes iachau'r gŵr dall yn rhoi cryn sylw i brofiad y gŵr a iachawyd; 'Lle roeddwn gynt yn ddall, rwy'n gweld yn awr' yw penawd ei ymdriniaeth. Roedd bore newydd wedi gwawrio yn hanes y dyn dall.

Dywed Isaac Jones fod y profiad o gael golwg newydd ar y byd yn eiddo pob Cristion sy'n ymwybodol fod Duw ar waith yn ei fywyd. Y sylweddoliad hwnnw, meddai, oedd y symbyliad i'r emynydd W Rhys Nicholas, lunio'r emyn mawreddog, 'Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist fab Duw', a hynny ryw nos Sul wedi bod yn pregethu ar yr hanes yma ac yn ceisio dirnad y newid ddaeth i fywyd y gŵr dall.

Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw,
tydi a roddaist imi flas ar fyw:
fe gydiaist ynof drwy dy Ysbryd Glân,
ni allaf tra bwyf byw ond canu'r gân;
'rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n parhau,
'rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti. (C. Ff. 791)

Yn dilyn y wyrth mae'r dyn fu'n ddall yn cael ei ddwyn gerbron y Phariseaid sy'n ei holi am Iesu. Ond nid yw ef yn gallu dweud dim mwy wrthynt amdano na'i fod wedi ei iachau. Beth bynnag eu barn hwy, yr oedd ef yn sicr o'r hyn a ddigwyddodd iddo, ac er na allai esbonio'r peth, roedd yn bendant mai Iesu a'i hiachaodd. Ac meddai Isaac Jones;'Mae' n bwysicach caru Crist na damcaniaethu amdano'!

Gweddi

Ein Duw, cyflwynwn ein hunain i ti,
a diolchwn am dy gariad mawr tuag atom.
Rhoddaist inni fywyd newydd trwy Iesu Grist dy Fab,
a dyna destun ein diolch a'n rhyfeddod.
Ynddo Ef y bu i ni ganfod y gwerth a osodaist arnom,
oherwydd bu Crist farw yn ein lle ac atgyfodi er ein mwyn.
O sylweddoli hynny, a gweld y byd yng ngoleuni dy gariad,
ciliodd ofn ac anobaith, a daeth hyder a goleuni i'n bywyd.
Maddau inni ein bod, er hynny, yn dal yn hoff o'r cysgodion,
ac yn ei chael yn anodd weithiau i roi ein ffydd yn llwyr ynot ti.
Cymorth ni yn ein gwendid,
ac arwain ni i'th adnabod yn well a'th garu'n fwy,
a thrwy hynny dy ddilyn yn ffyddlonach.

Cyflwynwn i'th sylw bawb sydd heddiw'n dioddef,
yn enwedig y rhai sydd yng ngafael gofid a phryder.
Cysura hwy, a bydd gyda'r cleifion ym mhob man,
a rhod dy nodded i bawb sydd mewn hiraeth.
Cyflwynwn ein gwlad a'n byd hefyd gerbron dy orsedd,

a gweddïwn am heddwch a chyfiawnder,

am ddoethineb i'n gwleidyddion,

a thosturi tuag at bawb sydd mewn angen,

ac am ysbryd anhunanol a maddeugar,

rydd les eraill yn gyntaf,

ac a ymdrecha i sicrhau ffyniant y ddaear.

Bydd gyda phawb sy'n annwyl yn ein golwg,

a bendithia ein haelwydydd a'n teuluoedd,

am y gofynnwn bopeth yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist.

Amen.

Emyn 791

Tydi a wnaeth y wyrth, O Grist, Fab Duw,
tydi a roddaist imi flas ar fyw:
fe gydiaist ynof drwy dy Ysbryd Glân,
ni allaf tra bwyf byw ond canu'r gân;
'rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n parhau,
'rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

Tydi yw haul fy nydd, O Grist y groes,
yr wyt yn harddu holl orwelion f'oes;
lle'r oedd cysgodion nos mae llif y wawr,
lle'r oeddwn gynt yn ddall 'rwy'n gweld yn awr;
mae golau imi yn dy Berson hael,
penllanw fy ngorfoledd yw dy gael;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, lesu, fy mawrhad i ti.

Tydi sy'n haeddu'r clod, ddihalog Un
mae ystyr bywyd ynot ti dy hun;
yr wyt yn llanw'r gwacter drwy dy air,
daw'r pell yn agos ynot, O Fab Mair;
mae melodïau'r cread er dy fwyn,
mi welaf dy ogoniant ar bob twyn;
mae'r Halelwia yn fy enaid i,
a rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i ti.

W. RHYS NICHOLAS, 1914-96

Ctrl a chlic

https://youtu.be/E0zz4zmEfL4

Pantyfedwen (Tydi A Wnaeth Y Wyrth) · Cymanfa Treforus

Y Fendith

Sancteiddia ni Arglwydd,
i'th wasanaeth
a helpa ni ag un galon ac un ysbryd
i gyfryngu dy wirionedd a'th oleuni i'r byd
fel y gwelo eraill ogoniant ein Harglwydd a'n Gwaredwr
Iesu Grist. **Amen.**

E ap N Roberts, Cymer fy Munudau, 2021, t.158.